**LC1104**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
| --- | --- |

# Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Symud ar draws Ffin) (Cymru) 2005

Mae’r Rheoliadau yma’n gwneud darpariaethau mewn perthynas â Chymru ar gyfer gweinyddu a gorfodi Rheoliad EC 1946/2003 ynghylch symud organeddau a addaswyd yn enetig ar draws ffiniau.

## Rheol Sefydlog 11.7

Cafodd y Cynghorwyr Cyfreithiol gyfle i fwrw golwg ar ddrafft cynharach o’r Rheoliadau yma. Oherwydd hynny, mae pwyntiau adrodd posibl wedi’u datrys ac erbyn hyn does dim pwyntiau wedi’u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

## Sylwadau

Cafodd pwyntiau fformadu y byddai’n addas eu cywiro wrth gyhoeddi’r Rheoliadau eu mynegi i’r cyfreithiwr a’u drafftiodd ac maen nhw wedi’u cymryd i ystyriaeth yn y drafft yma.

**Glyn Davies AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**21 Mehefin 2005**